**ATODLEN 2**

**YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CEISIADAU AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA ORGANEDDAU A ADDASWYD YN ENETIG AC EITHRIO UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG**

# Rhan II

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Å'R ORGANEDDAUAU A ADDASWYD YN ENETIG

*Nodweddion organeddau a addaswyd yn enetig*

**25.** Disgrifiad o nodweddion genetig neu nodweddion ffenotypig ac yn benodol unrhyw nodweddion newydd a allai gael eu mynegi neu nad ydynt bellach yn cael eu mynegi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**26.** Strwythur a swm unrhyw fector neu asid niwclëig rhoi sy'n parhau yng ngwneuthuriad terfynol yr organeddau a addaswyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**27.** Sefydlogrwydd yr organeddau o safbwynt nodweddion genetig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 27 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**28.** Cyfradd a lefel mynegiant y deunydd genetig newydd yn yr organeddau, a dull a sensitifrwydd mesuriad y gyfradd a'r lefel honNo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 2 para. 28 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**29.** Actifedd y cynnyrch genynnol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 29 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**30.** Y disgrifiad o dechnegau adnabod a chanfod, gan gynnwys technegau ar gyfer adnabod a chanfod y dilyniant a'r fector a fewnosodwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 2 para. 30 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**31.** Sensitifrwydd, dibynadwyedd (yn nhermau meintiol), a sbesiffigedd y technegau canfod ac adnabod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 2 para. 31 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**32.** Hanes gollyngiadau neu ddefnyddiau blaenorol yr organeddau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 2 para. 32 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**33.** Mewn perthynas â iechyd dynol, iechyd anifeiliaid a iechyd planhigion—

(a) effeithiau gwenwynig neu alergenig yr organeddau a/neu eu cynhyrchion metabolig,

(b) cymhariaeth rhwng yr organeddau â'r rhoddwr, y derbynnydd neu (os yw'n briodol) yr organeddau rhieniol mewn perthynas â phathogenigrwydd,

(c) gallu'r organeddau i gytrefu,

(ch) os yw'r organeddau yn bathogenig i bobl sy'n imiwnogymwys—

(i) yr afiechydon a achosir a mecanwaith y pathogenigrwydd gan gynnwys ymledoldeb a mileindra,

(ii) heintusrwydd,

(iii) dogn heintiol,

(iv) ystod lletywyr a'r posibilrwydd o newid,

(v) y posibilrwydd o oroesi y tu allan i'r lletywr dynol,

(vi) presenoldeb fectorau neu ddulliau lledaenu,

(vii) sefydlogrwydd biolegol,

(viii) patrymau ymwrthedd gwrthfiotig,

(ix) alergenedd, a

(x) argaeledd therapïau priodol; a

(d) peryglon eraill y cynnyrch.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 2 para. 33 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/12/2002.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Organeddau A Addaswyd Yn Enetig (Eu Gollwng Yn Fwriadol) (Cymru) 2002. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.